Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	29 Medi 2022
Aelod Arweiniol/Swyddog	Y Cyng. W Mullen-James, Aelod Arweiniol Cynllunio a Datblygu Lleol / y Cyng. B Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant / Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai
Awdur yr adroddiad	Karsten Brußk, Uwch Swyddog Cynllunio
Teitl	Sefydlu Bwrdd Rheoli Maethynnau i fynd i'r afael â llygredd ffosfforws yn Ardal Cadwraeth Arbennig "Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid"

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno partneriaeth newydd sbon yng ngogledd Cymru h.y. Bwrdd Rheoli Maethynnau, i fynd i'r afael â llygredd ffosfforws yn nalgylch Afon Dyfrdwy. Mae'n nodi manylion y fframwaith cyfreithiol, y strwythur, y gofynion posibl o ran adnoddau a'r llwyth gwaith blynyddol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) a Chyngor Sir y Fflint (CSyFf) wedi ymrwymo i sefydlu Bwrdd Rheoli Maethynnau. Mae'r ddau gyngor yn ceisio darparu eu cynlluniau datblygu lleol yng ngoleuni'r dyletswyddau cyfreithiol sydd wedi'u nodi ar gyfer awdurdodau cymwys yn "Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017" (fel y'u diwygiwyd) (Rheoliadau Cynefinoedd 2017).

2.2. Dylai Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) ystyried ymuno â'r bartneriaeth hon i alluogi dull dalgylch i wella ansawdd dŵr Afon Dyfrdwy yn ogystal â sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni prosiectau cymunedol lleol a Gwasanaeth Cynllunio effeithlon yn unol ag ystyriaethau Rheoliadau Cynefinoedd 2017.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod CSDd yn ymuno â'r Bwrdd Rheoli Maethynnau ac yn cydweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael a llygredd ffosfforws yn nalgylch Afon Dyfrdwy,

3.2 Bydd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant yn cynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd, gydag Aelod Arweiniol Cynllunio a Datblygu lleol yn ddirprwy.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 21 Ionawr 2021 gosododd Cyfoeth Naturiol Cymru safonau ffosfforws newydd ar gyfer y naw Ardal Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru. Y nod yw gwella ansawdd dŵr drwy leihau lefelau llwyth ffosfforws, sy'n oddeutu 50% i 80% yn is na'r safonau blaenorol. Mae'r adroddiad asesu ar gydymffurfio â'r targedau ffosfforws llymach wedi dangos nad yw oddeutu 38% o'r dyfroedd a arolygwyd yn ardaloedd cydymffurfio "Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid" yn cyrraedd y targedau.

4.2. Mae Atodiad 1 yn cynnwys yr adroddiad gwreiddiol ar ffosffadau a gyflwynwyd i Grŵp Cynllunio Strategol CSDd fis Tachwedd 2021, sy'n amlygu manylion am ffosfforws yn ein hamgylchedd, dyletswyddau cyfreithiol awdurdodau cymwys fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Cynefinoedd 2017, diffyg cyngor proffesiynol a'r goblygiadau i benderfyniadau Rheoli Datblygu a Chynllunio Strategol a Thai.

4.3. Mae byrddau rheoli maethynnau yn bartneriaethau gwirfoddol, strategol a hirdymor gyda'r prif nod o sicrhau gwelliannau yn ansawdd dŵr a chyrraedd targedau cadwraeth ffosfforws Ardaloedd Cadwraeth Arbennig penodol ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Eu rôl yw cydlynu camau gweithredu'r holl gyfranogwyr a, thrwy hynny, sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon. Mae'r byrddau hyn yn gweithredu o fewn fframwaith o bwerau cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau ymlaen llaw.

4.4. Er bod sawl afon yn Sir Ddinbych, afon Dyfrdwy yw'r unig ardal ddyfrol sydd â statws Ardal Cadwraeth Arbennig. Bydd astudiaethau, rhaglenni a chamau gweithredu yn canolbwyntio ar afon Dyfrdwy a'i hisafonydd. Mae afonydd eraill fel Clwyd ac Elwy y tu allan i gwmpas y Bwrdd Rheoli Maethynnau.

4.5. Mae partneriaethau yn eu lle ar gyfer y 9 Ardal Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru. Mae'r cyfarfodydd cyntaf wedi'u cynnal yn ne-orllewin Cymru. Mae

cylch gorchwyl wedi'i lunio yn seiliedig ar gylch gorchwyl (a phrofiad) Bwrdd Rheoli Maethynnau Afon Gwy. Rhagwelir y bydd cyfarfod cychwynnol Bwrdd Afon Dyfrdwy yn cael ei gynnal fis Medi 2022. Nid yw swyddogion ar hyn o bryd mewn sefyllfa i gadarnhau manylion y cylch gorchwyl, yr adnoddau na'r aelodaeth. Fodd bynnag mae Atodiad 2 yn cynnwys y cylch gorchwyl drafft a gyflwynwyd i Fwrdd Gweithredol CBSW fis Mawrth 2022.

4.6. Rhagwelir y bydd tri grŵp yn cael ei sefydlu dan ymbarél y Bwrdd Rheoli Maethynnau; (1) Grŵp Budd-ddeiliaid a (2) Grŵp Swyddogion Technegol a fydd yn cael eu harwain gan (3) Grŵp Arolygu 'Bwrdd Rheoli Maethynnau'. Pwrpas y Grŵp Arolygu fydd llywio strategaethau, rhaglenni a chamau gweithredu budd-ddeiliad unigol a'r Grŵp Swyddogion Technegol. Mae rhannu gwybodaeth ac arbenigedd yn hanfodol i sicrhau partneriaeth lwyddiannus. Os yw CSDd yn ymuno â'r Bwrdd Rheoli Maethynnau, bydd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant yn rhan o'r Grŵp Arolygu, ond fe all hefyd fynd i gyfarfodydd y Grŵp Budd-ddeiliaid a'r Grŵp Swyddogion Technegol.

4.7. Nid oes yn rhaid i'r Cyngor gymryd rhan ond byddai'n manteisio ar adnoddau, arbenigedd ac ymarfer gorau er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol. Os yw'r Cyngor yn dewis parhau ar ei ben ei hun gyda'r adnoddau presennol, byddai yna effaith ar berfformiad gwasanaethau a chyflawni dogfennau corfforaethol. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad mewn perthynas â pha mor hir y mae awdurdodau cynllunio lleol yn cymryd i wneud penderfyniadau ar geisiadau. Mae llunio'r CDLl newydd hefyd yn rhwym wrth yr amserlenni sydd wedi'u cytuno gan Lywodraeth Cymru yn y Cytundeb Cyflawni . Heb ddatrysiadau ar gyfer llygredd ffosfforws, bydd hyn yn parhau i gael effaith fawr ar ddatblygiadau yn y dalgylch.

4.8. Mae CSyFf a CBSW o'n blaenau mewn perthynas â cham 'Archwiliad Cyhoeddus' eu CDLlau. Roedd yn rhaid i'r ddau gyngor ddarparu tystiolaeth gynhwysfawr ar effaith peidio ag achosi llwythi ffosffadau ychwanegol yn nalgylch yr Ardal Cadwraeth Arbennig oherwydd y cynigion datblygu sydd wedi'u cynnwys yn eu CDLlau newydd. Wedi'i gefnogi gan ymgynghorwyr amgylcheddol, cyflwynodd y ddau gyngor 'Strategaeth Lleihau Ffosfforws Dalgylch Afon Dyfrdwy' i'w Harolygwyr Cynllunio ddiwedd 2021. Mae CSDd yn cynhyrchu CDLl newydd ar gyfer y sir, a bydd arnynt angen strategaeth debyg fel rhan o'r Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd.

4.9. I ddechrau, bydd y camau gweithredu yn ymwneud â chasglu gwybodaeth sydd ar gael mewn rhaglenni a chynlluniau budd-ddeiliaid ar leihau ffosfforws i gynhyrchu Cynllun Rheoli Maethynnau, a fydd yn ôl pob tebyg yn gorfod bod yn debyg i Strategaeth Lleihau Ffosfforws Dalgylch Afon Dyfrdwy CBSW/CSyFf ond ar ddalgylch ehangach afon Dyfrdwy.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Er na fydd yr argymhelliad i ymuno â'r Bwrdd Rheoli Maethynnau (gwelwch Adran 3.1) yn cyfrannu at unrhyw flaenoriaeth gorfforaethol ynddo'i hun, bydd y bartneriaeth newydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni amcanion a llawer o'r prosiectau sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Corfforaethol (drafft) 2022-2027; yn cynnwys darparu tai fforddiadwy (Thema 1); cefnogi busnesau gwledig (Thema 2); darparu cyfleusterau addysg newydd modern yn Nyffryn Dyfrdwy (Thema 3); adfer cynefinoedd yn Nyffryn Dyfrdwy (Thema 5); a gwella gwasanaethau i gwsmeriaid (Thema 7).

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd ymuno â'r Bwrdd Rheoli Maethynnau newydd ar gyfer dalgylch afon Dyfrdwy yn gofyn am adnoddau yn nhermau cynrychiolwyr ar y Grŵp Budd-ddeiliaid, y Grŵp Swyddogion technegol a'r Grŵp Arolygu. Oni bai bod cyllid yn cael ei ddarparu gan ffynonellau allanol, bydd y Cyngor yn defnyddio'i gyllidebau presennol i gymryd unrhyw gam gweithredu i gefnogi amcanion y Bwrdd o fewn ffiniau gweinyddol Sir Ddinbych.

6.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i gefnogi gwaith y byrddau rheoli maethynnau, gyda hyd at £415,000 ar gael yn 2022-23 (ar draws Cymru) a darpariaeth ychwanegol yn 2023-24 a 2024-25. (Mae Atodiad 3 yn cynnwys 'Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru yn ystod Cynhadledd Llygredd Afonydd yn Sioe Frenhinol Cymru', 1 Awst 2022).

6.3. Unwaith y bydd arbenigedd proffesiynol a dull strategol a dibynadwy tuag at liniaru ar gael, bydd y Cyngor yn gallu darparu llawer o brosiectau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Corfforaethol (gwelwch yr adran flaenorol), cael mynediad at ffynonellau ariannol allanol sy'n dibynnu ar gymeradwyaethau

cynllunio o fewn amserlen benodol, a chefnogi'r nodau sydd wedi'i diffinio yn 'Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol' 2021/22 CSDd.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid yw Asesiad ar Les wedi'i gynnal gan nad yw'r ymgynghoriad yn gofyn am newid i weithdrefn na pholisi, nac yn arwain at gamau gweithredu uniongyrchol. Bydd unrhyw gam gweithredu yn deillio o ofynion cyfreithiol, neu'n cael eu cyfiawnhau ar sail strategaethau, rhaglenni a dogfennau corfforaethol, sydd wedi bod yn destun asesiad o'r effaith ar les.

7.2. Fodd bynnag, dylid amlygu bod gweithio ar sail hirdymor ac ar y cyd gydag awdurdodau lleol cyfagos a budd-ddeiliaid eraill yn cefnogi'r ddau nod lles canlynol: 'Cymru lewyrchus' a 'Cymru Gydnerth'.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd aelodau o'r Grŵp Cynllunio Strategol a Grwpiau Ardal Aelodau Dyffryn Dyfrdwy sesiwn friffio ar gyflwyno targedau ffosffadau tynnach ac effaith hynny ar y broses o wneud penderfyniadau yn Adran Gynllunio CSDd yn ystod eu cyfarfodydd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr.

8.2. Ar 18 Gorffennaf 2022 cafodd y Tîm Gweithredol Corfforaethol drafodaeth ar ymuno â'r Bwrdd Rheoli Maethynnau; ac roeddynt yn cefnogi'r argymhelliad mewn egwyddor. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch trefniadau sefydliadol a'r gofynion o ran adnoddau. Mae Adran 4 wedi'i diwygio i adlewyrchu'r drafodaeth.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes costau sylweddol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Bydd cyllidebau presennol yn cwrdd ag unrhyw gost.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Dim.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000.